



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol

NEWYDDION Y SECTOR DYSGU CYMRAEG

Hydref 2026

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Croeso

Helo bawb,

Croeso cynnes i rifyn yr hydref o gylchlythyr y sector Dysgu Cymraeg. Gobeithio eich bod yn mwynhau prysurdeb dechrau blwyddyn academiaidd newydd. Mae'n wych gweld bod niferoedd iach wedi cofrestru eto eleni, a chymaint o ddysgwyr yn penderfynu mentro i ddysgu Cymraeg neu'n parhau â'u taith iaith.

Roedd hi'n braf gweld nifer ohonoch yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las yn Llantwd fis Awst. Fe gawson ni sylw cadarnhaol yn ystod yr wythnos, a diolch i dîm Dysgu Cymraeg Sir Benfro am y cydweithio hapus, wrth i ni drefnu stondin am y tro cyntaf ym Maes D.

Roedd 'Dathlu'r Deg', sef ein digwyddiad i ddathlu deng mlynedd ers sefydlu'r Ganolfan, yn achlysur arbennig, ac yn gyfle gwych i nodi twf a chyflawniadau'r sector. Llongyfarchiadau i bawb dderbyniodd wobwr, ac i bawb a gafodd eu henwebu.

Yn y rhifyn yma, cewch fanylion am yr Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg sydd ar y gweill, a'r cyfleoedd diweddaraf i'n dysgwyr ymarfer a mwynhau eu Cymraeg, gan gynnwys y cyrsiau preswyl poblogaidd yn Llangrannog a Glan-llyn.

Cofiwch hefyd am 'Ar Droed' sef cyfres o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu gan Fentrau Iaith Cymru ar ran y Ganolfan. Mae'r teithiau cerdded wedi'u cyhoeddi ar wefan y Mentrau, ac mae'r manylion ar gael gan eich Swyddogion Cefnogi Dysgwyr.

Mae'r cylchlythyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfleoedd hyfforddi fydd ar gael i chi yn ystod y flwyddyn academiaidd yma. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i'ch cefnogi chi yn eich gwaith, felly gobeithio y gwelwn ni nifer ohonoch yn y sesiynau hyfforddi sydd wedi'u trefnu.

Dymuniadau gorau i chi a'ch dosbarthiadau.

Cofion cynnes,

Dona Lewis
Prif Weithredwr
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol





Newyddion yr Eisteddfod

Cawson ni wythnos i'w chofio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac roedd y digwyddiad 'Dathlu'r Deg' yn goron ar y cyfan. Diolch yn fawr i bawb ddaeth draw i ymuno yn y dathlu.

Roedd yr Eisteddfod yn gyfle gwych i ni dynnu sylw at waith y Ganolfan a rhannwyd nifer o straeon yn ystod yr wythnos.

Darllenwch ragor am y straeon hyn:

- [Dathlu deng mlynedd o dwf dan arweiniad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol](#)
- [Partneriaeth newydd i gefnogi bydwagedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith](#)
- [S4C i fuddsoddi mwy mewn cynnwys digidol i ddysgwyr](#)
- [Cynllun Dysgu Cymraeg newydd i gynyddu defnydd o'r iaith ym myd Chwaraeon](#)
- [Llwyddiant llyfrau dysgwyr 'Amdani' – dros 84,000 copi wedi'u gwerthu](#)



Digwyddiadau cefnogi dysgwyr

Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg

Bydd yr Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg yn cael ei chynnal rhwng 10-16 Hydref, gyda lleisiau dysgwyr a siaradwyr newydd i'w clywed ar draws gwasanaethau BBC Radio Cymru ac S4C.

Ar 12 Hydref, bydd cyfle i'n dysgwyr holi rhai o gyflwynwyr BBC Radio Cymru mewn sesiwn rithiol am 7yh. Bydd y sesiwn yn addas i ddysgwyr lefelau Canolradd, Uwch a Gloywi – mae modd cofrestru ar y safle:

[Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg – Cwrdd â'r cyflwynwyr!](#)



 dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Cwrdd â'r cyflwynwyr!

**Nos Lun, 12 Hydref
am 7:00pm**

Cyfle i fwynhau sgwrs gyda rhai
o brif leisiau BBC Radio Cymru:

- Dylan Ebenezer
- Alun Thomas

Sgwrs fyw ar Zoom – archebwch
eich lle nawr. Yn addas i ddysgwyr
Canolradd, Uwch a Gloywi.

Join this virtual Q&A – for learners at
Intermediate+ levels.




 

'Dyn ni wedi trefnu rhagor o sesiynau rhithiol fydd yn rhoi cyfle i'n dysgwyr ymarfer y Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth tan ddiwedd y tymor.

14 Hydref 6pm

Cyflwyno Archif Ddarlledu Cymru
(Canolradd, Uwch, Gloywi)
[Cyflwyno Archif Ddarlledu Cymru](#)

25 Tachwedd 8pm

Ffair Nadolig (Pob lefel – bydd cyfieithu ar gael)

Dolen gofrestru (Cymraeg):
Ffair Nadolig Rithiol

Dolen gofrestru (Saesneg):
Virtual Christmas Fair

3 Rhagfyr 7pm

Siawns am Sgwrs gyda Emyr Davies
(Pob lefel)



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg yn cyflwyno...

Archif Ddarlledu Cymru

Nos Fercher, 14 Hydref am 6pm ar Zoom.

Lefel: Canolradd, Uwch, Gloywi

Cyfle i ddysgu sut i ddefnyddio
Archif Ddarlledu Cymru.

Ewch i dysgucymraeg.cymru i
gofrestru.

Join us to learn more about the Wales Broadcast Archive – suitable for Welsh learners at Canolradd, Uwch and Gloywi levels.



Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Ffair Nadolig Rithiol

Nos Fercher, 25 Tachwedd am 8pm

**Chwilio am anrhegion Nadolig?
Cyfle i glywed am fusnesau Cymraeg
a dechrau eich siopa Nadolig.**

**Sesiwn Cymraeg, gyda chyfieithu
ar y pryd.**

Virtual Christmas Fair

Wednesday, 25 November at 8pm

Looking for Christmas presents?
Join us, and get started on
your shopping.

Welsh language session,
with simultaneous
translation.



Cyrsiau preswyl

Dyma gadarnhau dyddiadau'r cyrsiau preswyl yn ystod 2026-2027. Bydd mwy o fanylion ar gael yn y man, ond mae croeso i chi rannu'r dyddiadau gyda'ch dysgwyr. Byddem yn gwerthfawrogi pob cymorth i hyrwyddo'r cyrsiau.

- Cymraeg yn y Cartref, Llangrannog
12-14 Chwefror 2027

Dolen gofrestru (Cymraeg):
[Penwythnos Cymraeg i'r Teulu yn Llangrannog](#)

Dolen gofrestru (Saesneg):
[Welsh for the Family Weekend](#)

- Cwrs Glan-Ilyn
21-23 Mai 2027



Hyfforddiant i Diwtoriaid

Diolch yn fawr i bawb wnaeth fynychu sesiynau hyfforddi fis Medi.
Cofiwch am y dyddiadau sy'n weddill rhwng Tachwedd a'r haf, sydd wedi eu nodi yn y tabl. Mae modd cofrestru ar yr holl sesiynau ar Academi.

Dyddiadau i'ch dyddiadur

Gellir ymrestru ar Academi ar gyfer pob un o'r sesiynau.

Teitl a hyfforddwr:	Lleoliad/ Platfform:	Dyddiad:	Cynulleidfa darged:
Delio â sgysiau anodd: Claire Lynch, RCS Cymru	Teams	25.11.26 (10.00am-12.00pm)	Staff Gweinyddol
Dysgu 1:1 neu grwpiau bach iawn Lowri Bunford-Jones	Zoom	08.01.27 (2.00pm-3.30pm)	Tiwtoriaid sy'n dysgu 1:1 neu grwpiau bach iawn
Gramadeg Uwch 2	Zoom	12.01.27 (8.30am-9.00am)	Tiwtoriaid Uwch 2
Gramadeg Uwch 2	Zoom	20.01.27 (8.30am-9.00am)	Tiwtoriaid Uwch 2
Sgwrs Banel: Dysgu dosbarthiadau cyfunol gyda Lois Evans, Sara Orwig-Palmer a Tom Sugg	Zoom	27.01.27 (1.00pm-2.00pm)	Tiwtoriaid sy'n dysgu cyrsiau cyfunol ar bob lefel
Gramadeg Uwch 3	Zoom	28.01.27 (8.30am-9.00am)	Tiwtoriaid Uwch 3
Gramadeg Uwch 3	Zoom	05.02.27 (8.30am-9.00am)	Tiwtoriaid Uwch 3
Y Gynhadledd Genedlaethol	Zoom	05.03.27	Tiwtoriaid a staff y sector Dysgu Cymraeg
Uwch 3	Lleoliadau ar draws Cymru	Tymor yr Haf	Tiwtoriaid a fydd yn dysgu Uwch 3



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru